PROSIECT MAELGI: CYMRU
ANGEL SHARK PROJECT: WALES

ZSL LET'S WORK FOR WILDLIFE

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

E-LYFR ANGYLION CYMRU - LLAWLYFR ATHRAWON

Mae'r llawlyfr hwn yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am Faelgwn a'r Prosiect Maelgi: Cymru i ategu'r e-lyfr.

Ein nod ar gyfer yr e-lyfr yw helpu disgyblion i ddysgu mwy am y Maelgi, sydd mewn Perygl Difrifol, a sut mae'r prosiect yn datgelu mwy am y rhywogaeth a'i phwysigrwydd yn nhreftadaeth Cymru. Mae'r iaith a'r darluniau wedi'u teilwra ar gyfer plant 7 i 11 oed ac rydyn ni wedi creu fersiynau Cymraeg a Saesneg sydd am ddim i'w lawrlwytho o www.angelsharkproject.com/ebook.

Mae'r e-lyfr wedi cael ei gynllunio i gefnogi ystod o bynciau a gellir ei ddefnyddio ar gyfer prosiect tymor hir, gan ddarparu symbyliadau amrywiol mewn gwahanol feysydd cwricwlwm fel bioleg, daearyddiaeth, hanes a mathemateg - ac mae'n cyd-fynd yn agos â **Chwricwlwm Cenedlaethol Cymru 2022**. Fe'i cynlluniwyd i gynorthwyo plant a phobl ifanc i fod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus yng Nghymru a'r byd, yn arbennig drwy'r Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg:

- **Beth sy'n Bwysig -** Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd er mwyn goroesi.
- **Beth sy'n Bwysig -** Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn helpu i ehangu ein dealltwriaeth o'r byd naturiol ac yn helpu cymdeithas i ddatblygu.

BETH YW MAELGI?

Mae'r Maelgi (*Squatina squatina*) yn siarc mawr a chanddo gorff fflat sy'n cyrraedd hyd at 2.4m o hyd. Caiff Maelgwn eu camgymryd weithiau am gathod môr neu eu cam-gofnodi fel cytheruliaid môr (*Lophius piscatorius*). Mae Maelgwn yn bwydo ar amrywiaeth o bysgod, cramenogion a molysgiaid ac mae ganddynt rôl bwysig o ran cynnal ecosystem forol gytbwys. Nid ydynt yn fygythiol gyda phobl, ac maent yn byw yn bennaf ar dywod neu fwd ar waelod y môr, gan aros yn amyneddgar i ymosod ar eu hysglyfaeth.

Ar un adeg, roedd y Maelgi'n gyffredin ledled Ewrop, ond bellach mae ei niferoedd wedi dirywio'n ddramatig drwy lawer o'i gynefin blaenorol yn y 50 i 100 mlynedd diwethaf ac erbyn hyn mae wedi'i restru fel creadur sydd mewn Perygl Difrifol ar Restr Goch yr IUCN. Mae'r dyfroedd o amgylch yr Ynysoedd Dedwydd wedi'u nodi fel cadarnle unigryw i'r rhywogaeth lle mae Maelgwn i'w gweld yn aml, ond mae poblogaeth bwysig yn dal i fyw yng Nghymru hefyd – un o'r lleoedd olaf yng Ngogledd Ddwyrain yr Iwerydd lle mae'r rhywogaeth hon yn dal i fod yn bresennol.

Teulu'r maelgwn (*Squatinidae*) yw'r rhywogaeth o elasmobranciaid (siarcod a chathod môr) sydd o dan yr ail fygythiad mwyaf yn y byd, tu ôl i deulu'r llifbysgod (*Pristidae*). Caiff Maelgwn eu gwarchod o dan Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac mae'n anghyfreithlon tarfu, targedu, anafu neu ladd Maelgwn yn fwriadol o fewn 12 milltir forol o arfordiroedd Cymru a Lloegr.

PROSIECT MAELGI: CYMRU

Mae Prosiect Maelgi: Cymru (PM: C) yn brosiect arloesol a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2018, i ddeall a diogelu'r Maelgi (*Squatina squatina*) yn well yng Nghymru drwy gyfranogaeth pysgotwyr, treftadaeth a gwyddoniaeth dinasyddion.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydyn ni wedi cyflawni nifer o ganlyniadau pwysig:

- Cyrraedd dros 50 miliwn o bobl drwy ddatganiadau i'r wasg a chyfryngau cymdeithasol;
- Ymgysylltu â thros 523 o bobl yn uniongyrchol drwy sioeau teithiol a gwyddoniaeth dinasyddion;
- Datblygu perthnasau sicr gyda 75 o bysgotwyr hamdden, pysgotwyr cychod siarter a physgotwyr masnachol ar raddfa fach;
- Casglu 2,165 o gofnodion Maelgwn newydd;
- Nodi mannau mynych a chynefinoedd pwysig posibl ar gyfer y Maelgi drwy allbynnau model dosbarthu rhywogaethau a gwaith dadansoddi arall;
- Datblygu Cynllun Gweithredu Maelgwn Cymru drwy weithdai traws-sectorol o bell i nodi'r camau nesaf i sicrhau dyfodol Maelgwn yng Nghymru

Mae cofnodion o'r Maelgi'n dyddio'n ôl i 1558, ac maent wedi'u rhannu gyda PM: C gan bysgotwyr, cymunedau lleol yn ystod y Sioe Deithiol Hanes Maelgwn a thrwy ymchwil gwyddoniaeth dinasyddion. Mae'r cofnodion hyn yn helpu i gael gwell dealltwriaeth o ddosbarthiad Maelgwn a'u defnydd o'u cynefinoedd ar hyd arfordir Cymru ac rydyn ni'n wirioneddol ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect.

SYNIADAU AR GYFER CYNLLUNIAU GWERSI

Mae achosion o weld Maelgwn wedi'u cofnodi o amgylch arfordir Cymru, felly gellid defnyddio'r e-lyfr hwn i dynnu sylw at bwysigrwydd eich amgylchedd morol lleol i'r rhywogaeth. Gellid ei ymgorffori fel rhan o'r Wythnos Bioleg neu yn ystod gwersi bioleg, daearyddiaeth, hanes neu fathemateg.

Teitl y Wers: Ble mae Maelgwn yn Byw? Sut i adeiladu'r cartref perffaith ar gyfer Maelgi

Dosbarth: Cyfnod Allweddol 2

Meysydd Dysgu:

- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Celfyddydau Mynegiannol

Adnoddau
www.angelsharkproject.com/ebook

Nod y Wers: Helpu disgyblion i ddod yn fwy cyfarwydd â Maelgwn a'u hanatomeg. Bydd disgyblion hefyd yn archwilio cynefinoedd morol Cymru lle mae Maelgwn i'w cael ac yn dysgu sut y maent wedi addasu i'w hamgylchoedd.

Amcanion:
- Labelu Maelgi yn gywir
- Defnyddio ac ymestyn geirfa bioleg
- Gwella gwybodaeth am gynefinoedd anifeiliaid

GWERS
TASGAU AC ATEBION

Gofynnwch i'r plant beth maen nhw'n ei wybod am guddliw. Os nad ydynt yn gwybod llawer, gellir egluro'r egwyddor – h.y. sut mae anifail yn cuddio yn ei amgylchedd gyda nodweddion fel ei liw yn cymysgu â'i amgylchedd. Gofynnwch i'r dysgwyr nodi anifeiliaid sydd â chuddliw.

Gofynnwch i'r dysgwyr pam y byddai angen cuddliw ar anifail - i guddio rhag ysglyfaethwyr neu i fynd ar ôl ysglyfaeth. Gofynnwch am unrhyw enghreifftiau y maen nhw'n gwybod amdanynt. Defnyddiwch dudalen 6 yr e-lyfr i atgyfnerthu'r pwynt hwn.

Nawr bod gan ddysgwyr ddealltwriaeth sylfaenol o guddliw, defnyddiwch dudalen 4 yr adnodd i labelu'r Maelgi. Dechreuwch y dasg drwy ddarllen yr adran 'awgrymiadau defnyddiol' yn uchel. Anogwch nhw i roi cynnig heb boeni am wneud camgymeriad. Cyfeiriwch yn ôl at yr 'awgrymiadau defnyddiol' i egluro pam mae Maelgwn wedi esblygu i gael y nodwedd honno.

AWGRYM AR GYFER GWEITHGAREDD FFOCWS ANNIBYNNOL

- Gofynnwch i'r plant ddefnyddio pensiliau lliwio i greu amgylchedd morol.
- Anogwch nhw i feddwl am pryd y maen nhw wedi bod i lan y môr yn y gorffennol a beth maen nhw wedi dod ar ei draws.
- Gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio eu dychymyg i ddychmygu cynefinoedd tanddwr o amgylch Cymru a chynnwys hynny yn eu gwaith, trwy ymdoddi amlinell y Maelgi i'r amgylchedd.



-

CEFNOGWYD GAN:

Caiff PM: C ei arwain gan Gymdeithas Swolegol Llundain a Cyfoeth Naturiol Cymru gyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru.

GWYBODAETH BELLACH:

Dysgwch fwy am y prosiect yma: www.angelsharknetwork.com/cymru

E-bost: angelsharks@zsl.org